

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Canolfan Feddygol Albany
(Casnewydd)

Dyddiad yr arolygiad: 21 Medi
2017

Dyddiad cyhoeddi: 22 Rhagfyr
2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|--|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad | 6 |
| 3. | Yr hyn a ganfuom..... | 8 |
| | Ansawdd profiad y claf | 9 |
| | Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | 11 |
| | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth..... | 13 |
| 4. | Beth nesaf? | 15 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol | 17 |
| | Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad | 18 |
| | Atodiad B – Cynllun gwella..... | 19 |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Albany, Llawr 1af, Siambrau Albany, Stryd Skinner, Casnewydd, NP20 1HD, ar 21 Medi 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddarparu cyngor a thriniaeth ynghylch rheoli a cholli pwysau gan ymarferydd clinigol i gleifion sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn. Gwelwyd trefniadau ar gyfer darparu cleifion gyda gwybodaeth ddigonol ynghylch eu hanghenion iechyd, a oedd hefyd yn ystyried eu gofynion unigol.

Nid oedd unrhyw gleifion yn mynychu'r clinig ar adeg ein harolygiad, felly nid oedd yn bosibl i gael barn uniongyrchol y cleifion ynglŷn â'r gofal yr oeddent wedi'i dderbyn. Serch hynny, roedd y gwasanaeth yn defnyddio holiaduron i gael adborth gan gleifion ac roedd y sampl a welsom yn cynnwys sylwadau cadarnhaol ynghylch y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus iawn yn eu rolau
- Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol o ran y driniaeth a oedd yn cael ei derbyn
- Roedd gwybodaeth yn cael ei chynnig ynghylch yr holl agweddau ar reoli pwysau
- Roedd cofnodion y cleifion yn fanwl ac yn cael eu cadw'n ddiogel
- Roedd tystiolaeth bod meddyginiaeth yn cael ei gweinyddu'n ddiogel
- Roedd y clinig yn ymgymryd ag archwiliadau mewnol er mwyn gwella safonau

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Byddai'n syniad da pe bai bwrdd adnabod staff ar gael yn y man aros er mwyn i gleifion wybod pwy yw'r clinigwyr sy'n gweithio yn y clinig
- Dylai'r peiriannau mesur pwysau gwaed gael eu graddnodi'n¹ flynyddol

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

¹ Mae graddnodi'r monitor pwysedd gwaed yn cadw'r monitor mewn cyflwr da. Bydd hyn yn sicrhau bod y canlyniadau'n gywir a bod y peiriant yn gweithio yn unol â bwriad y gwneuthurwr.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Feddygol Albany (Casnewydd) wedi'i chofrestru i ddarparu cyngor a thriniaeth annibynnol ynghylch rheoli a cholli pwysau ar y Llawr 1af, Siambrau Albany, Stryd Skinner, Casnewydd, NP20 1HD.

Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 29 Rhagfyr 2008.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri meddyg rhan amser a thri derbynnydd/gweinyddwr rhan amser.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y clinig yn cynnig gwasanaeth sy'n bodloni holl anghenion y cleifion mewn ffordd ddiogel a phroffesiynol.

Roedd y cleifion yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr cyn unrhyw ymgynghoriad ac roedd eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn bwysig ac yn cael ei chydabod.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu eu sylwadau ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron:

"Mae'r staff bob amser yn cynnig gwasanaeth proffesiynol. Mae'r clinig yn lân iawn ac yn daclus, darperir gwybodaeth, ac mae'r cynlluniau triniaeth yn cael eu hesbonio'n drwyadl."

Er bod yr amgylchedd yn hen a heibio ei orau, dywedodd mwyafrif y cleifion ei fod yn lân a thaclus. Roedd pawb yn cytuno bod y staff yn gwrtais, yn gwranddo, ac yn cynnig digon o wybodaeth ynghylch y driniaeth. Nid oedd yr adeilad yn hawdd ei gyrraedd i bobl sydd ag anawsterau symudedd.

Roedd gweithdrefn gwynion ar y wal yn yr ystafell aros a oedd yn bodloni'r safon ofynnol. Gwnaeth bron i bob ymatebydd yn yr holiadur nodi ei fod yn gwybod sut i gyflwyno cwyn. Ni fu unrhyw gwynion na phryderon ers yr arolygiad diwethaf.

Gwnaeth 17 o'r ymatebwyr nodi bod y gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd yn rhagorol.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom bosteri a oedd yn cynghori cleifion ynghylch rheoli maint eu prydau bwyd, ymarfer corff a bwyta'n iach. Roedd cofnodion cleifion yn dangos hefyd

bod y meddygon yn trafod dewisiadau bywyd iach ynghyd ag unrhyw driniaeth ragnodedig.

Gwelsom fod meini prawf llym yn bodoli cyn bod y clinig yn cytuno trefnu apwyntiad gyda darpar glaf. Roedd hyn yn sicrhau mai dim ond cleifion a oedd angen triniaeth a oedd yn cael cynnig apwyntiad.

Urddas a pharch

Roedd cleifion yn derbyn ymgynghoriadau â'r meddygon mewn ystafell breifat ymhell wrth yr ardal aros.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Gwelsom yng nghofnodion y cleifion ac mewn ffurflen wag a roddwyd inni ei darllen fod cleifion yn derbyn gwybodaeth glir ac yn cytuno i driniaeth cyn iddynt gael ymgynghoriad â'r meddygon.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd posteri a thafleuni gwybodaeth ar gael ynglŷn â'r driniaeth sy'n cael ei chynnig yn y clinig. Fodd bynnag, roedd yr wybodaeth hon ar gael yn y Saesneg yn unig.

Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar hapsampl o gofnodion pum claf a chanfod, er nad oedd llawer o ffurflenni, fod yr wybodaeth yn glir ac yn fwy na digonol ar gyfer y broses ymgynghori. Gwelsom wybodaeth am hanesion meddygol cleifion, meddyginiaeth gyfredol, pwysedd gwaed a phwysau.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Gwelsom dystiolaeth o adborth cleifion mewn holiaduron, lle'r oedd yr wybodaeth wedi cael ei chasglu ar ffurf graffiau ac roedd yn hawdd ei deall. Roedd yr wybodaeth i'w gweld yn y brif ardal aros.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roeddem yn fodlon bod y clinig yn cynnig triniaeth ddiogel a sensitif sydd wedi'i theilwra i fodloni anghenion unigol y cleifion.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio a'i gweinyddu'n ddiogel.

Roedd y staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ar gyfer y gwasanaeth roeddent yn ei ddarparu.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod cleifion ac roeddem yn fodlon bod y cynnwys clinigol yn cynnig yr wybodaeth ddigonol at ddibenion yr ymgynghoriad. Er bod meddyginiaethau sydd wedi'u rhagnodi neu heb eu rhagnodi yn cael eu cofnodi, gwnaethom nodi nad oedd y rheswm dros eu rhagnodi bob amser yn cael ei gofnodi. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y byddai hyn yn derbyn sylw gyda'r meddygon ar unwaith.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Oherwydd natur y clinig, prin iawn oedd yr angen am gamau i atal a rheoli heintiau, er bod gel dwylo ar gael. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd unrhyw gyfleusterau ymolchi dwylo ar gael yn yr ystafelloedd ymgynghori. Gwnaeth trafodaeth â'r rheolwr cofrestredig ddangos efallai na fyddai'r brydles ar yr adeilad yn cael ei hehangu'r flwyddyn nesaf oherwydd gwaith ailddatblygu. Nododd y rheolwr cofrestredig y byddai hyn yn cael ei ystyried wrth brydlesu adeilad newydd.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y broses ar gyfer rheoli meddyginiaethau ac roeddem yn fodlon ei bod yn ddiogel. Gwnaethom drafod sut y byddai unrhyw feddyginiaethau a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad yn cael eu gwaredu a dywedwyd wrthym fod yr holl feddyginiaethau nad oedd eu hangen bellach yn

cael eu rhoi i'r fferyllfa leol neu fod cleifion yn cael eu cynghori i fynd â nhw at eu fferyllfa leol er mwyn gwaredu arnynt.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Ni fu unrhyw faterion ynghylch diogelu. Roedd yr holl staff wedi cael eu hyfforddi i adnabod ac adrodd ar unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Roedd manylion cyswllt lleol yn cael eu cadw mewn ffolder ddiogelu. Gwnaethom edrych ar brosesau recriwtio ac roedd staff wedi derbyn y gwiriadau gofynnol cyn dechrau yn y swydd.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd tri pheiriant pwysedd gwaed ar gael, ond nid oedd dau ohonynt wedi cael eu graddnodi'n ddiweddar. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig, a wnaeth waredu ar y ddau hen beiriant a phrynu un newydd. Bellach, roedd gan y clinig beiriant pwysedd gwaed digidol a mecanyddol ar gael.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom yng nghofnodion y cleifion fod hanesion meddygol ac unrhyw feddyginiaeth bresennol i gleifion yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe bai'r drafodaeth ynghylch y rheswm clinigol dros ragnodi meddyginiaeth yn cael ei gofnodi yn ei gyfanrwydd.

Gwelsom dystysgrifau cyfredol a dilys ynghylch gwacáu pe bai tân, graddnodi'r glorian bwysau ac asesiadau risg yr adeilad. Perchennog yr adeilad a oedd yn gyfrifol am arolygiadau trydan a nwy.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cadw mewn amgylchedd diogel.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu a monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roeddem yn fodlon bod arweinyddiaeth a rheolaeth glir ar waith. Roedd staff wedi cael eu cyflogi gan y cwmni am gyfnodau hir o amser ac roeddent yn llwyr ymwybodol o'r hyn a oedd yn ofynnol a phwy y dylent gysylltu â nhw am gymorth a chynghor.

Roedd y staff yn gyfeillgar ac roeddent wedi creu perthnasau gwaith da gyda'u cleifion dychwelyd.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd llinellau eglur o gyfrifoldebau ac roedd y staff yn ymwybodol o sut i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau anffafriol. Nododd yr holl staff y gallent fynd at y tîm uwch reoli gydag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.

Nododd staff eu bod wedi cael arfarniadau blynyddol yn ddiweddar a'u bod yn hyderus y byddai unrhyw hyfforddiant perthnasol yn cael ei gynnig, os oedd angen. Siaradom ag aelod cymharol newydd o staff (18 mis), a wnaeth gadarnhau ei bod hi wedi derbyn cefnogaeth dda yn ystod ei chyfnod cynefino.

Roedd adroddiadau ysgrifenedig ar ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol² (Mai 2017) ar gael inni eu darllen ac roeddent yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol.

² Yr unigolyn cyfrifol yw cynrychiolydd y sefydliad neu'r cwmni.

Adolygwyd y datganiad o ddiben³ ym mis Gorffennaf 2015 ac roedd y canllaw i gleifion wedi cael ei adolygu ym mis Gorffennaf 2017.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Ni fu unrhyw bryderon/cwynion gan gleifion ers yr arolygiad diwethaf. Byddai unrhyw bryderon ynghylch meddyginiaethau yn cael eu hadrodd yn unol â gofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dyweddodd staff eu bod yn derbyn cymorth oddi wrth eu chwaer-bractis ym Mhontypridd yn ôl yr angen. Roedd hyn fel arfer i gyflenwi yn ystod cyfnod o wyliau blynyddol neu salwch annisgwyl. Roedd y staff yn derbyn hyfforddiant priodol ar gyfer y meysydd roeddent yn gweithio ynddynt. Gwelsom dystiolaeth fod ffeiliau'r meddygon wedi cael eu diweddarau yn ddiweddar.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff ac roeddem yn fodlon bod yr holl ddogfennau yn gyfredol. Roedd tystiolaeth o ail-ddilysu meddygon⁴ a chofrestru'n flynyddol. Roedd gan yr holl staff adroddiad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

³ Mae datganiad o ddiben yn ddogfen sy'n amlinellu amcanion a nodau'r sefydliad neu'r cwmni.

⁴ Ailddilysu yw'r broses lle mae meddygon yn cadarnhau wrth y Cyngor Meddygol Cyffredinol eu bod yn meddu ar yr wybodaeth gyfredol a'u bod yn addas i ymarfer.

4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|--|--|--------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Albany (Casnewydd)

Dyddiad yr arolygiad: 21 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|------------------|-------------------------------|------------------|----------|
| Ansawdd profiad y claf | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau. | | | | |
| Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau. | | | | |
| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: